**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams, AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Llywodraeth Cymru

24 Hydref 2018

Annwyl Kirsty

**Meini prawf cymhwysedd diwygiedig ar gyfer prydau ysgol am ddim yng Nghymru o ganlyniad i gyflwyno Credyd Cyffredinol**

Cyfeiriaf at ein gohebiaeth gynharach mewn perthynas â chynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, a'r pryderon a godwyd gyda'r Pwyllgor gan Gymdeithas y Plant.

Fel y gwyddoch, trafododd y Pwyllgor y mater hwn yn ei gyfarfod ar 20 Medi ond, ers hynny, clywodd ragor o bryderon gan randdeiliaid. Yn eich llythyr dyddiedig 27 Medi, gwnaethoch gadarnhau y byddech yn fodlon rhoi gwybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor pe bai ei hangen, a byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech egluro'r canlynol:

- Sut y gwnaeth Llywodraeth Cymru benderfynu ar drothwy incwm blynyddol net o £7,400?
- A wnaeth Llywodraeth Cymru ystyried trothwyon eraill, er enghraifft, £14,000 fel yng Ngogledd Iwerddon?
- Faint mwy o ddisgyblion y mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y byddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim pe bai trothwy incwm blynyddol net o £14,000 yn cael ei ddefnyddio a beth fyddai costau ychwanegol hyn?

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

- Pa oblygiadau y byddai mabwysiadu trothwy uwch na'r £7,400 arfaethedig yn eu cael ar gymhwysedd ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion a'r costau cysylltiedig?

Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe gallech gadarnhau ar ba ddyddiad y bydd y rheoliadau perthnasol yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad. Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**